O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2016 Rhif 47 (Cy. 19)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Little Mill, Man i'r Gorllewin o Frynbuga, Sir Fynwy) (Gwahardd Troi i'r Chwith ac i'r Dde Dros Dro) 2016

Gwnaed	*19 Ionawr 2016*
Yn dod i rym	*22 Ionawr 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Amwythig (yr A4042) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Ionawr 2016. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Little Mill, Man i'r Gorllewin o Frynbuga, Sir Fynwy) (Gwahardd Troi i'r Chwith ac i'r Dde Dros Dro) 2016.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 22 Ionawr 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A4042 wrth Little Mill, Man i'r Gorllewin o Frynbuga yn Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd droi i'r chwith ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd droi i'r dde ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

Cymhwyso

5. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato ar waith.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 19 Ionawr 2016

Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.

(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ATODLENNI

DARNAU O GEFNFFORDD YR A4042 YN LITTLE MILL, MAN I'R GORLLEWIN O FRYNBUGA, SIR FYNWY.

ATODLEN 1

GWAHARDD TROI I'R CHWITH DROS DRO

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r de a'r troad i'r chwith oddi ar gerbytffordd tua'r de cefnffordd yr A4042 i'r A472, Berthin Road.

ATODLEN 2

GWAHARDD TROI I'R DDE DROS DRO

Y troad i'r dde oddi ar gerbytffordd tua'r gogledd cefnffordd yr A4042 i'r A472, Berthin Road.